# Trefniadau ar gyfer rhoi adborth i'r awdurdod lleol yn ystod y broses adolygu ac ar gyfer delio â phryderon

## Trafodaethau parhaus

Fel arfer rhoddir adborth a chyflwyniad i'r awdurdod lleol (a defnyddwyr y gwasanaeth a'r grwp gofalwyr) ar y prif ddarganfyddiadau yn syth ar ôl cwblhau'r gwaith maes. Serch hynny, mae trafodaethau cyson rhwng yr adolygwyr a'r awdurdod yn sail i'r broses gydadolygu. Mae'r berthynas rhwng yr ardlygydd arweiniol a'r swyddog cyswllt yn hynod o bwysig yn enwedig wrth gydweithio i reoli'r adolygiad.

Disgwylir y bydd yr ardlygydd arweiniol yn cwrdd yn rheolaidd â chyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol yn ystod y gwaith maes er mwyn trafod:

- themâu sy'n dod i'r amlwg;
- barn yr awdurdod mewn perthynas â'r ffordd y cynhelir y cydadolygiad;
- sut i fynd ati i archwilio rhai meysydd penodol;
- unrhyw faterion sy'n rhaid tynnu sylw'r cyfarwyddwr atynt.

Mae'r agwedd hon yn gyson â'r angen i sicrhau bod y broses adolygu yn cael ei chynnal gydag ymdeimlad o bartneriaeth a bod canlyniad yr adolygiad yn cael ei ragweld gymaint â phosibl. Mae'n ddigon posibl newid unrhyw sylwadau a wnaed yn ystod unrhyw gyfnod interim yn dilyn tystiolaeth newydd. Efallai y bydd yr awdurdod yn dymuno derbyn mwy o wybodaeth i ategu neu herio'r syniad gwreiddiol.

## Ymateb i faterion penodol

O bryd i'w gilydd bydd adolygwyr yn nodi themâu, materion neu achosion unigol pwysig lle bydd rhaid i'r awdurdod lleol ddelio â hwy yn gyflym. Gall y rhain amrywio o faterion bach sy'n bwysig iawn megis arferion gwael unigolion

neu fethiant wrth geisio cyflawni gwasanaeth penodol i sefyllfaoedd risg uchel lle bydd angen i'r awdurdod ymyrryd yn syth.

Bydd adolygwyr yn delio â'r materion hyn ar y lefel sy'n briodol ar gyfer delio â hwy. Efallai y byddant yn penderfynu bod modd datrys rhai achosion penodol drwy drafod y mater yn syth gyda'r rheolwr perthnasol a derbyn cadarnhad bod y mater wedi ei ddatrys. Mae'n bosibl y bydd rhaid cyfeirio materion eraill at uwch reolwyr er mwyn eu datrys. Bydd yr adolygydd arweiniol yn hysbysu'r cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol am unrhyw bryderon difrifol, fel y nodwyd yn y protocol ar gyfer ymyrryd (gweler Adran 3.07 yn y Llawlyfr).

Bydd yr adolygydd arweiniol yn llunio adroddiad ac yn cyfeirio unrhyw bryderon penodol am achosion unigol na ellir eu datrys yn syth, at y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol, yn ysgrifenedig, gan ddisgwyl y bydd y mater yn cael ei archwilio a'i ddatrys. Bydd y cyfarwyddwr yn darparu adroddiad i'r perwyl hyn ar gyfer y rheolwr arweiniol yn yr AGCC.